Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**
Dyddiad:	**Dydd Iau, 15 Ionawr 2015**
Amser:	**09.30 – 12.40**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/2665

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:	**David Rees AC (Cadeirydd)** **Alun Davies AC** **Janet Finch-Saunders AC** **John Griffiths AC** **Elin Jones AC** **Darren Millar AC** **Lynne Neagle AC** **Gwyn R Price AC** **Kirsty Williams AC (ar gyfer eitemau 1 i 5)** **Peter Black AC (yn lle Kirsty Williams AC ar gyfer eitemau 7 a 10)**
Tystion:	**Dan Greaves, Y Swyddfa Gartref** **Angela Scrutton, Y Swyddfa Gartref** **Kirsty Williams AC** **Philippa Watkins** **Lisa Salkeld**
Staff y Pwyllgor:	**Llinos Madeley (Clerc)** **Helen Finlayson (Ail Clerc)** **Sian Giddins (Dirprwy Glerc)** **Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)**

Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)
Amy Clifton (Ymchwilydd)

Trawsgrifiad
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lindsay Whittle.

2 Papurau i'w nodi

2.0a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr.

2.1 Ymchwiliad i broses gwynion y GIG: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

2.2 Ymchwiliad dilynol i'r cyfraniad a wneir gan fferyllfeydd cymunedol i wasanaethau iechyd yng Nghymru: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

2.3 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

2.4 Blaenraglen waith y Pwyllgor: gohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
2.4a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

2.5 Craffu ar waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2.5a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

2.6 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau: P-04-570 Argaeledd Anghyfartal o ran Triniaethau nad ydynt wedi'u Harfarnu'n Genedlaethol gan GIG Cymru
2.6a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau i dynnu sylw at ei waith diweddar mewn perthynas â'r broses Cais Cyllido Cleifion Unigol.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4 a 5

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

4 Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau: paratoi ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y trefniadau ar gyfer gweithgaredd ymgysylltu'r ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau.

5 Gwybodaeth ddilynol am yr ymchwiliad undydd i farw-enedigaethau yng Nghymru: ystyried y dystiolaeth

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a'r adroddiad diweddaru gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Gweinidog i nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn, ac i ofyn am ragor o wybodaeth am rai materion penodol a godwyd yn y dystiolaeth.

6 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): sesiwn dystiolaeth 8

6.1 Bu'r tystion yn ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

6.2 Cytunodd y tystion i ddarparu rhagor o wybodaeth am y broses a ddefnyddiodd cydweithwyr yn y Swyddfa Gartref i ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig ym maes sylweddau seicoweithredol newydd.

7 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): sesiwn dystiolaeth 1

7.1 Ymatebodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil (Kirsty Williams) i gwestiynau gan yr Aelodau.

7.2 Cytunodd yr Aelod sy'n gyfrifol i roi amlinelliad i'r Pwyllgor o ba ddangosyddion nyrsio diogel a amlinellir yn adran 3(5) o'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) sy'n deillio o ganllawiau'r Prif Swyddog Nyrsio a chanllawiau NICE a pha rai a gafodd eu cynnwys o ganlyniad i'r ymatebion i'w hymgynghoriadau ar y Bil.

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

9 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law.

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth.

10 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): ystyried y dystiolaeth

10.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.